



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad o Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol – Aseiad o Gynnydd – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 410A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Anne Beegan a Matthew Brushett.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth adnabod anghenion clinigol a'r risgiau'n gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol o fewn ei wasanaethau ei hun. Serch hynny, mae angen rhoi mwy o sylw i gryfhau'r trefniadau sicrwydd comisiynu a blaenoriaethu llwybrau amgen i gleifion sy'n cael eu trin y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	8

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015	9
Atodiad 2 – Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i unrhyw argymhellion a oedd yn weddill yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol [i'w gynnwys ar ôl i'r Bwrdd Iechyd ei gwblhau]	23

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac amlweddog ac yn cyflawni rôl allweddol o ran llwybrau cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar ganfyddiad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd byrddau iechyd.
- 2 Bydd adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall o'r ysbty, gydag oddeutu 3 miliwn o ymweliadau gan gleifion bob blwyddyn¹, mewn sawl lleoliad ledled Cymru. Apwyntiad dilynol yw ymweliad ag adran cleifion allanol yn dilyn ymweliad cychwynnol neu ymweliad cyntaf.
- 3 Dros yr 20 mlynedd diwethaf, apwyntiadau dilynol i gleifion allanol fu oddeutu tri chwarter yr holl weithgarwch sy'n ymwneud â chleifion allanol ledled Cymru. Apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yw'r gyfran fwyaf o'r holl weithgarwch ar gyfer cleifion allanol, ac mae potensial iddynt gynyddu eto yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, a allai greu cynnydd mewn cyflyrau cronig a chydforbidrwydd. Nid yw apwyntiadau dilynol sy'n rhan o'r pecyn o driniaethau ei hun, er enghraifft, i gymryd meddyginiaeth, neu i adolygu cyflwr y claf, yn destun targedau amseroldeb a osodir gan Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, caiff y rhain eu rheoli yng nghyd-destun canllawiau clinigol a dyddiadau targed a bennir yn lleol ar gyfer apwyntiadau dilynol.
- 4 Ers mis Ionawr 2015, bu'n ofynnol i bob bwrdd iechyd gyflwyno adroddiad misol i Lywodraeth Cymru'n nodi nifer y cleifion a oedd yn aros (yn wynebu oedi) ar ddiwedd pob mis am apwyntiad dilynol i glaf allanol, yn seiliedig ar eu dyddiad targed². Yn rhan o'i Fframwaith Canlyniadau ar gyfer y GIG 2016-17³, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio targed y canlyniad fel bod llai o gleifion allanol sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol wedi pasio eu dyddiad targed cytunedig.
- 5 Yn rhan o raglen archwilio 2015, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o gleifion dilynol ar draws pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Ceisiai'r adolygiad ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn effeithiol?'
- 6 Adroddwyd ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) ym mis Medi 2015, gan ddod i'r casgliad canlynol: 'Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i reoli achosion lleol o oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol, a threfniadau i gefnogi gwaith i drawsnewid gwasanaethau. Serch hynny, mae'n rhaid iddo wneud mwy i asesu risgiau clinigol, gwella trefniadau craffu'r Bwrdd a deall sefyllfa'r mwyafrif o gleifion Powys a gaiff eu trin y tu allan i'r sir.' Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:
 - mae gan y Bwrdd Iechyd ddull systematig o gyfrif yr apwyntiadau dilynol i gleifion allanol lleol, ond mae angen iddo asesu'r risgiau clinigol sy'n gysylltiedig â'r oedi

¹ Ffynhonnell: Stats Cymru, Data cryno ar gleifion allanol dan ofal meddygon ymgynghorol.

² Dyddiad targed yw'r dyddiad pan ddylai claf fod wedi derbyn ei apwyntiad dilynol.

³ Cylchlythyr Iechyd Cymru CIC (2016) 023.

cyn cynnal apwyntiadau dilynol, ac mae angen iddo ddeall yn well beth yw sefyllfa'r cleifion ym Mhowys a gaiff eu trin y tu allan i'r sir;

- mae'r Bwrdd Iechyd yn llwyddo i leihau nifer y cleifion sy'n wynebu oedi a gaiff eu trin yn lleol, ond gallai wella'r trefniadau adrodd a sicrwydd ar gyfer holl gleifion Powys; ac
- mae trefniadau gweithredol byrdymor ar waith er mwyn helpu i leihau achosion o oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol, a dylai'r trefniadau a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar gyfer rheoli rhaglenni gefnogi gwaith i drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

7 Yn 2015, gwnaed yr argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad, a welir yn **Nangosyn 1**.

Dangosyn 1: argymhellion a wnaed yn 2015

Argymhellion	
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol	
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol	
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.
Asesu risgiau clinigol	
A3	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, nodi cyflyrau clinigol ar draws yr holl arbenigeddau lle gallai niwed anadferadwy gael ei achosi i gleifion yn sgil oedi cyn cael apwyntiad dilynol. Datblygu ymriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau hyd yr eithaf y risg i gleifion y mae'r cyflyrau hyn arnynt, ac sy'n wynebu oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Lefel Gwasanaeth	
A4	Sicrhau bod yr holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn addas i'r diben, hy, eu bod yn nodi: sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.
A5	Sicrhau yr adroddir wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol ar berfformiad yn erbyn Cytundebau Lefel Gwasanaeth, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

8 Yn rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2016, cynhwysodd yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol i olrhain cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr **Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol** yn 2015. Dechreuwyd y

diweddariad hwn ar gynnydd ym mis Chwefror 2017 a gofynnwyd y cwestiwn canlynol:

A yw'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd digonol mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol?

- 9 Wrth gynnal y diweddariad cynnydd hwn, rydym wedi:
- adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r bwrdd ac i bwyllgorau;
 - cynnal dadansoddiadau lefel uchel o ddata diweddar y Bwrdd lechyd a gyflwynwyr i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol; a
 - chyfweld â sawl aelod o staff y Bwrdd lechyd i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau i'r dyfodol.
- 10 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adran ganlynol, a gwybodaeth fanylach yn [Atodiad 1](#).

Ein canfyddiadau

- 11 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da wrth adnabod anghenion clinigol a'r risgiau'n gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol o fewn ei wasanaethau ei hun. Serch hynny, mae angen rhoi mwy o sylw i gryfhau'r trefniadau sicrwydd comisiynu a blaenoriaethu llwybrau amgen i gleifion sy'n cael eu trin y tu allan i ardal y Bwrdd lechyd.
- 12 Mae statws y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol wedi'i nodi'n gryno yn [Nangosyn 2](#).

Dangosyn 2: statws argymhellion 2015

Cyfanswm yr argymhellion	Gweithredwyd	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'i ddisodli
5	1	3	1	0

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 13 Gwelsom fod y Bwrdd lechyd wedi gweithredu un argymhelliad, ac wedi gwneud cynnydd yn erbyn tri argymhelliad, ond nad oedd wedi gwneud rhyw lawer o gynnydd, os o gwbl, yn erbyn un argymhelliad. Lle bu cynnydd, bu cyflymder y gwelliant yn dda:
- mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i asesu'r anghenion clinigol yn gysylltiedig ag apwyntiadau lle ceir oedi, ond mae amharodwydd darparwyr allanol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dilysu clinigol yn cyfyngu arno i ryw raddau. Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau archwilio llwybrau amgen er mwyn ymdrin â hyn, ac o hyn allan gallai fod yn fuddiol iddo roi'r flaenoriaeth i weithredu llwybrau fydd o'r budd mwyaf i gleifion.
 - mae'r ffocws ar y risgiau clinigol yn gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau cleifion allanol yn dal yn annigonol ar lefel y Bwrdd ac ar lefel is-bwyllgorau. Mae

hynny'n wir yn achos cleifion a welir yn ardaloedd lleol y Bwrdd Iechyd a chleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol gyda darparwydd arall. Mae gwybodaeth y Bwrdd Iechyd am apwyntiadau dilynol gan wasanaethau a gomisiynir yn brin, a hynny'n rhannol oherwydd diffyg ymgysylltu â'r darparwyr hyn. Nid yw felly'n gallu cael dealltwriaeth lawn o'r perfformiad a'r risgiau yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ym Mhowys.

- mae'r Grŵp Sicrwydd Comisiynu Mewnol, a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2015 wedi helpu i wella'r sefyllfa hon drwy weithio i ganfod lle mae'r risgiau mwyaf a chynnal dadansoddiadau pellach. Ei nod yw 'ysgogi datblygiad dealltwriaeth "gyfannol" o'r gwasanaethau a gomisiynir, gan ystyried profiad y claf, ansawdd, diogelwch, mynediad, gweithgarwch a chyllid⁴.
- Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth⁵ (CLGau) a Chytundebau Hirdymor⁶ (CHau) bellach yn fwy cadarn, yn dilyn yr adolygiad Sicrwydd Comisiynu, a'r cydymffurfio â'r cytundebau hynny'n well. Mae lefelau uwchgyfeirio ar gyfer cytundebau yn glir, sy'n ysgogi darparwyr i wella eu perfformiad. Cyflwynwyd sancsiynau, gan gynnwys dirwyon, i ddarparwyr yn Lloegr. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd ynghylch pa mor effeithiol yr ydynt, ac agweddau sensitif yn gysylltiedig â hwy, yn sgil dibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau darparwyr a gomisiynir.

⁴Adroddiad Sicrwydd Comisiynu Mewnol i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, 9 Mawrth 2017. Mae parth 'llywodraethu' wedi cael ei ychwanegu ers hynny.

⁵Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) yn trafod gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr a gomisiynir oddi mewn i ardal Bwrdd Iechyd Powys, er enghraifft, meddygon ymgynghorol ymweliadol.

⁶Mae Cytundebau Hirdymor (CHau) yn trafod trefniadau â darparwyr a gomisiynir sy'n derbyn cleifion Bwrdd Iechyd Powys yn unrhyw un o'u cyfleusterau.

Argymhellion

- 14 Wrth gynnal y diweddariad hwn ar gynnydd, nid ydym wedi canfod unrhyw risgiau newydd sylweddol yn gysylltiedig â chleifion dilynol, ac nid ydym wedi cyflwyno unrhyw argymhellion ychwanegol⁷. Mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i wneud cynnydd wrth ymateb i'r argymhellion sy'n weddill. Nodir yr argymhellion hyn yn **Nangosyn 3**.

Dangosyn 3: argymhellion

Argymhellion sy'n dal yn weddill o 2015	
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol	
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol	
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth	
A4	Sicrhau bod yr holl Gytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn addas i'r diben, hy eu bod yn nodi sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.
A5	Sicrhau bod perfformiad yn erbyn Cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

⁷ Mae A4 ac A5 wedi cael eu haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Atodiad 1

Cynnydd y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015

Dangosyn 4: asesiad o gynnydd

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol			
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.	Mehedin 2016	Ar y gweill Wrth gynnal ein hadolygiad gwreiddiol, gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd ddull systematig o ddilysu ansawdd data a'i fod yn llwyddo i leihau nifer y cleifion sy'n wynebu oedi mewn gwasanaethau yr oedd yn eu darparu'n lleol. Er gwaethaf hyn, nid oedd wedi asesu a oedd angen clinigol am apwyntiadau dilynol, ac ychydig o waith dilysu clinigol yr oedd wedi'i gynnal. Ers ein hadolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i asesu'r anghenion clinigol yn gysylltiedig ag apwyntiadau lle ceir oedi, ond mae amharodrwydd darparwyr allanol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dilysu clinigol yn cyfyngu arno i ryw raddau. Mae'r broblem hon o bwys mawr gan fod 80% o'i gleifion yn cael eu trin y tu allan i Bowys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau archwilio llwybrau gwahanol er mwyn ymdrin â'r mater hwn, gan gynnwys tele-feddygaeth a threfnu i gynnal mwy o apwyntiadau dilynol oddi mewn i ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gallai fod yn fuddiol iddo roi'r flaenoriaeth i gynlluniau fydd yn creu'r budd mwyaf i gleifion o hyn allan.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol			
<p>A1 Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.</p>	<p>Mehefin 2016</p>	<p>Ar y gweill</p>	<p>Mae'r data a adroddwyd yn dangos bod nifer y cleifion allanol na ddaethant i'w hapwyntiad yn isel (y gyfradd DNA). Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn cynnwys cleifion sy'n derbyn eu gofal ym Mhowys. Nid yw'n glir beth yw'r gyfradd DNA ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal gan ddarparwyr cyfagos y GIG, ond yn ystod gwaith maes dywedodd staff wrthym fod yn nifer hwnnw'n gallu bod yn uchel. Pan na fydd cleifion yn bresennol mewn apwyntiadau â darparwyr, mae'n bosibl na fydd gan rai ohonynt angen clinigol am apwyntiad dilynol, neu efallai bydd teithio y tu allan i Bowys i'w hapwyntiad yn anghyfleus. Yn rhan o'i strategaeth ehangach, mae'r Grŵp Sicrwydd Comisiynu mewnol yn ceisio deall yr holl wasanaethau a gomisiynir gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd wrth ganfod meysydd lle ceir angen clinigol, a charfan sylweddol o gleifion nad oedd angen apwyntiad dilynol arnynt, o bosib.</p> <p>Er i'r Bwrdd Iechyd brofi rhywfaint o lwyddiant wrth leihau achosion o oedi lle nad oedd yr apwyntiad dilynol wedi'i drefnu, mae'r data'n awgrymu y cafwyd cynnydd cyson yn yr achosion hyn drwy gydol 2016 a 2017. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'n galonogol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal gweithgarwch dilysu clinigol mewn rhai meysydd. Ymagwedd gyntaf y Bwrdd Iechyd oedd dechrau gweithgarwch dilysu clinigol yn unol â'r arbenigeddau ar y rhaglen gofal wedi'i gynllunio⁸, er bod y cofnodion y buom yn eu hadolygu yn dangos ei fod wedi cyflawni mwy na hynny. Erbyn diwedd 2016, yr oedd cleifion a wynebai oedi a oedd yn disgwyl ers dros dri mis am apwyntiad dilynol, wedi'u hadolygu o safbwynt blaenoriaeth glinigol. Er gwaethaf yr ymdrechion o hyd, mae nifer fawr o gleifion mewn rhai meysydd arbenigol yn dal heb gael eu dilysu'n glinigol. Dywedodd staff wrthym fod amharoddrwydd darparwyr allanol i gynnal ymarferion dilysu clinigol ar gleifion sydd ar eu rhestrau o Bowys yn cymhlethu'r sefyllfa. Clywsom enghraifft ym maes arbenigol Iechyd Meddwl lle nad oedd rhestr a etifeddwyd o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi'i rhoi yn nhrefn blaenoriaeth yn unol ag anghenion clinigol. O ganlyniad i hyn roedd pump o bobl wedi disgwyl dros 100 o wythnosau am apwyntiad dilynol.</p>

⁸ Offthalmoleg, Orthopedeg, Clustiau, Trwyn a Gwddf, Wroleg a Dermatoleg

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol			
<p>A1 Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.</p>	<p>Mehefin 2016</p>	<p>Ar y gweill</p>	<p>Er mwyn helpu i leihau'r angen i gleifion deithio dros bellteroedd maith, mae llwybrau amgen wedi cael eu treialu. Mae rhai meysydd arbenigol wedi mabwysiadu trefniadau 'Gweld symptom' lle caiff claf ei ryddhau, ond ei addysgu i gadw golwg ar ei symptomau rhag iddynt ddychwelyd. Os bydd hynny'n digwydd, rhoddir mynediad â blaenoriaeth iddynt. Yn rhan o'r cynllun hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried system neges-destun telefeddygaeth sydd yn ysgogi cleifion i gyflwyno darlleniadau drwy neges-destun. Mae hyn yn galluogi'r clinigydd i weld a dadansoddi diweddariadau amser real ar gyflwr claf, gan olygu nad oes rhaid i'r claf deithio mor aml i apwyntiad dilynol mewn ysbyty cyfagos. Dywedodd staff y buom yn siarad â hwy wrthym nad oedd blaenoriaeth uchel i dreialu'r math hwn o fenter ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn ôl cynllun tymor canolig y Bwrdd Iechyd, rhoddir y flaenoriaeth i weithgareddau Moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn lleihau'r angen i gleifion deithio dros bellteroedd maith, drwy ddyrannu adnoddau ychwanegol i'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ardal Powys, fel ysbytai cymunedol, fel bo modd cynnal mwy o apwyntiadau dilynol yn nes at gartref y claf, a lleihau'r angen i glaf fynd i ysbyty aciwt y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd. Yn ôl yr adborth gan gleifion, bu'r cam hwn yn gadarnhaol.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol			
<p>A2 Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.</p>	<p>Mawrth 2016</p>	<p>Ar y gweill</p>	<p>Yn ein hadolygiad gwreiddiol, canfuom fod gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o ofynion safonau data Llywodraeth Cymru, a'i fod yn gwella ystod yr wybodaeth a oedd ar gael. Serch hynny, roedd angen iddo gael dealltwriaeth lawn o'r oedi ymhlith cleifion a oedd yn cael eu trin y tu allan i'r sir, a lefel y risg glinigol i'r cleifion hyn.</p> <p>Canfuom hefyd nad oedd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn derbyn digon o wybodaeth i roi sicrwydd nad oedd cleifion Powys yn dioddef unrhyw niwed wrth wynebu oedi, yn enwedig yng nghyswllt perfformiad gwasanaethau a gomisiynir, o ran nifer y sesiynau a gynhaliwyd mewn gwirionedd o gymharu â'r nifer a gomisiynwyd.</p> <p>Er gwaethaf ffocws cenedlaethol ar offthalmoleg, nid oedd y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi derbyn adroddiadau ar y risgiau clinigol a oedd yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol hwyr ar gyfer y maes arbenigol hwn, na gwybodaeth am yr hyn y mae'r Bwrdd lechyd yn ei wneud i leihau risg.</p> <p>Yn ein hadolygiad o gynnydd, gwelsom ddiffyg ffocws o hyd, ar lefel y Bwrdd a'r is-bwyllgorau, ar y risgiau clinigol yn gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Mae hyn yn wir yn achos cleifion a welir yn ardaloedd lleol y Bwrdd lechyd ac yn achos cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol gyda darparwyr a gomisiynir. Mae'r wybodaeth sydd gan y Bwrdd lechyd am apwyntiadau dilynol gan wasanaethau a gomisiynir yn brin, a hynny'n rhannol oherwydd diffyg ymgysylltu â'r darparwyr hynny. Er gwaethaf y diffyg ymgysylltu hwn, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i ddeall y sefyllfa o ran apwyntiadau dilynol, ac wedi buddsoddi adnoddau i ddadansoddi lefelau'r risg ar draws y gwasanaethau a gomisiynir ganddo.</p> <p>Mae'n galonogol fod y Bwrdd bellach yn derbyn gwybodaeth am nifer yr achosion o oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol gan yr holl ddarparwyr a'r gwasanaethau a gomisiynir, a hynny drwy ddangosfwrdd perfformiad chwarterol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd yn derbyn rhyw lawer o wybodaeth fanwl am lefel y risgiau clinigol. Er gwaethaf y ffocws cenedlaethol ar offthalmoleg ar adeg ein hadolygiad blaenorol, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o adroddiadau na gwybodaeth am risgiau clinigol yn gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol ar y Pwyllgor Profiadau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol			
<p>A2 Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.</p>	<p>Mawrth 2016</p>	<p>Ar y gweill</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth sylfaenol orfodol gan ddarparwyr, ac nid oes ganddo fynediad at lawer o'u systemau. Clywsom gan rai o'r staff ei bod hi'n anodd ymgysylltu â darparwyr allanol, a bod darparwyr a'r Bwrdd Iechyd yn anghytuno'n rheolaidd. Clywsom am un achos, lle'r oedd y Rhwydwaith Canser ar draws Cymru wedi peidio darparu gwybodaeth a oedd yn ymwneud yn benodol â Bwrdd Iechyd Powys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am hyn, ac wedi cynorthwyo'r Bwrdd drwy ddarparu gwybodaeth ar sail Cymru gyfan. Er ei bod hi'n anodd ymgysylltu â darparwyr allanol, mae'n amlwg bod trefniadau da ar waith i rannu gwybodaeth yn fewnol rhwng ardaloedd y gogledd a'r de. Clywsom hefyd fod y Grŵp Sicrwydd Comisiynu Mewnol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd i driongli gwybodaeth am risgiau.</p> <p>Er bod y Grŵp Rheoli Rhestrau Aros yn adrodd yn rheolaidd ar oedi wrth 'atgyfeirio i driniaeth' ar draws yr ardaloedd a'r darparwyr drwy ei gyfarfodydd rhestr aros pythefnosol, nid oedd y Grŵp yn gallu adrodd ar sefyllfa'r apwyntiadau dilynol, naill ai gan na chafwyd digon o ddata neu ymateb gan 15 o ddarparwyr allanol⁹. Mae'n ofynnol i'r holl fyrddau Iechyd adrodd ar ddata apwyntiadau dilynol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn data ar weithgarwch oddi wrth ddarparwyr. Er hynny, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r unig gorff i ddarparu Rhestr Aros Apwyntiadau Dilynol, er nad yw'r rhestr yn trafod cleifion Bwrdd Iechyd Powys yn benodol. Adroddwyd ar y mater hwn o fewn y Grŵp Sicrwydd Comisiynu Mewnol, a dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei bod hi'n bosibl y bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r set ofynnol o ddata i lunio rhestrau aros apwyntiadau dilynol i gleifion sy'n wynebu oedi mewn byrddau Iechyd eraill.</p>

⁹Diweddariad Gwasanaethau Gofal Eilaidd - 2017/2018 - diweddarwyd 19 Mehefin 2017

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol			
<p>A2 Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.</p>	<p>Mawrth 2016</p>	<p>Ar y gweill</p>	<p>Lle gwelir risgiau i gleifion allanol dilynol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymyrryd sawl gwaith i ymdrin â'r risgiau hynny. Er enghraifft, comisiynodd y Bwrdd Iechyd gwmni Ymgynghori Iechyd i roi sicrwydd annibynnol bod adolygiadau o niwed wedi'u cynnal mewn un darparwydd, er mwyn canfod lefel y risg¹⁰, ond nid yw hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gadw golwg reolaidd ar risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol yn y tymor hir. Gwelsom enghraifft arall yn y diweddariad ar Ddigwyddiad Difrifol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2017. Yn y diweddariad hwnnw tynnwyd sylw at broblem lle nad oedd system gyfrifiadurol y Bwrdd Iechyd yn dychwelyd cleifion i'r rhestr apwyntiadau dilynol yn y dull cywir, ar ôl eu hapwyntiad gwreiddiol. Achoswyd hyn gan ddiweddariad i feddalwedd ar System Gweinyddu Cleifion Cymru ym mis Ebrill 2017, ac ni chanfuwyd y broblem nes i nifer o gleifion fethu eu hapwyntiadau. Y mis hwnnw, ni chyflwynwyd adroddiadau ar ddata apwyntiadau dilynol i'r Bwrdd. Ar ôl y darganfyddiad hwn, cynhaliwyd ymarferion dilysu clinigol a gweinyddol ar y rhestrau perthnasol, ond nid yw'n glir a achoswyd unrhyw niwed diangen i unrhyw glaf ai peidio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiadau niwed ar gleifion sy'n aros yn hwy na'r amseroedd aros disgwylledig, ond nid yw'n glir beth y mae'n rhaid ei wneud i atal y broblem rhag codi eto yn y tymor hir.</p>

¹⁰Craffu allanol ar gleifion sy'n disgwyl 50 wythnos yn Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy. Cyhoeddwyd gan Curhams Limited, comisiynwyd ar y cyd gan Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Henffordd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Asesu risgiau clinigol			
<p>A3 Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, nodi cyflyrau clinigol ar draws yr holl arbenigeddau lle gallai niwed anadferadwy gael ei achosi i gleifion yn sgil oedi cyn cael apwyntiad dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau hyd yr eithaf y risg i gleifion y mae'r cyflyrau hyn arnynt, ac sy'n wynebu oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	Mai 2016	Gweithredwyd	<p>Yn ein hadolygiad gwreiddiol, canfuom fod rhestr aros apwyntiadau dilynol y Bwrdd lechyd yn gywirach yn sgil yr ymagwedd a fabwysiadwyd ganddo at ddilysu ansawdd data. Fodd bynnag, roedd diffyg dilysu clinigol yn lluddias y Bwrdd lechyd rhag deall beth oedd gwir natur y galw clinigol am apwyntiadau dilynol i'w gleifion allanol, a sut i leihau niwed posibl i gleifion a wynebai oedi. Roedd hyn yn amharu ar allu'r Bwrdd lechyd i fodelu'r galw a'r capasiti mewn modd cadarn, ac i ddatblygu'r llwybrau amgen priodol yn sgil hynny.</p> <p>Ers ein hadolygiad, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau i ganfod lle ceir y risgiau clinigol mwyaf, ac wedi ymroi'n rhagweithiol i ddatblygu mecanweithiau i leihau'r risgiau hynny hyd yr eithaf. Mae'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu wedi cynorthwyo i wella'r oruchwyliaeth ar risgiau ar draws y darparwyr a gomisiynir ganddo, er ei bod hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth berthnasol.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Asesu risgiau clinigol			
<p>A3 Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, nodi cyflyrau clinigol ar draws yr holl arbenigeddau lle gallai niwed anadferadwy gael ei achosi i gleifion yn sgil oedi cyn cael apwyntiad dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau hyd yr eithaf y risg i gleifion y mae'r cyflyrau hyn arnynt, ac sy'n wynebu oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	Mai 2016	Gweithredwyd	<p>Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i ddilysu'n glinigol yr holl gleifion fu'n aros dros dri mis tua diwedd 2016. Mae'r ymarfer dilysu clinigol hwn wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i gael dealltwriaeth fanylach o lefel y galw a'r capasiti. Ers hynny, mae aelodau uwch o staff wedi dweud wrthym eu bod yn ymwybodol o'r meysydd lle ceir risg, a'u bod yn fodlon â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn am risg. Yn arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod risg fwy yn gysylltiedig â gwasanaethau cardioleg, oherwydd prinder capasiti. Dengys data y cafwyd cynnydd cyson yn yr oedi yn y maes arbenigol hwn yn 2016, yn enwedig yn achos cleifion nad oedd apwyntiad wedi trefnu ar eu cyfer, ar y rhestr FUNB. Drwy gydol 2017, roedd cyfanswm yr achosion o oedi o fewn y maes arbenigol yn uwch na 30% ym mhob mis o'r flwyddyn, gan gyrraedd penllanw o 40% ym mis Tachwedd 2017.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i nodi risg yn gysylltiedig â chleifion offthalmoleg. Gwelwyd cynnydd yn yr achosion o oedi o fewn y maes arbenigol hwn, ac mae'r problemau capasiti a nodwyd gennym yn 2015 yn parhau i fod yn destun pryder. Ym mis Awst 2016, roedd 12% o gleifion offthalmoleg a oedd yn disgwyl am apwyntiad dilynol yn wynebu oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed. Erbyn mis Awst 2017, cyrhaeddodd y ffigur benllanw o 21%. Problemau capasiti tymor byr sydd i gyfrif yn rhannol am y cynnydd hwn. Dywedodd y staff wrthym fod darparwyr eraill yn canslo apwyntiadau offthalmoleg a bod hynny'n achosi problemau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynd i'r afael â hyn drwy gynnig mwy o apwyntiadau dilynol yn ardal Powys. Dylai cynlluniau i gyflwyno nyrsys arbenigol i gynnal apwyntiadau dilynol priodol gynyddu capasiti, a chlywsom mai nyrsys bellach sydd yn cynnal rhai clinigau. Ers mis Rhagfyr 2017, dylid nodi bod y niferoedd a wynebai oedi wedi gostwng i lefelau 2016.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Asesu risgiau clinigol			
<p>A3 Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, nodi cyflyrau clinigol ar draws yr holl arbenigeddau lle gallai niwed anadferadwy gael ei achosi i gleifion yn sgil oedi cyn cael apwyntiad dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau hyd yr eithaf y risg i gleifion y mae'r cyflyrau hyn arnynt, ac sy'n wynebu oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	<p>Mai 2016</p>	<p>Gweithredwyd</p>	<p>Fel y soniwyd yn Argymhelliad 1, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gofnodi lefelau uchel o achosion lle na ddaeth y claf i'w apwyntiad. Pan na fydd claf yn dod i'w apwyntiad, ceir oedi cyn unrhyw apwyntiad pellach, a allai niweidio'r claf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi treialu gwasanaeth atgoffa neges-destun er mwyn ceisio lleihau'r nifer sy'n methu eu hapwyntiad. Os caiff y gwasanaeth ei weithredu'n llwyddiannus, gallai helpu i ostwng lefel y cleifion sy'n wynebu oedi y trefnwyd apwyntiad ar eu cyfer.</p> <p>Mae'r Grŵp Sicrwydd Comisiynu Mewnol wedi dechrau asesu risg glinigol mewn modd rhagweithiol ar draws y darparwyr, gan gynnwys cleifion a gaiff eu trin y tu allan i'r sir, ac mae ganddo swydd amser llawn wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni hynny. Yn rhan o'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio meddalwedd o'r enw CHKS i gasglu a thriongli gwybodaeth gan ddarparwyr, gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal ac adroddiadau archwilio. Mae hyn yn galluogi'r Grŵp i gynnal dadansoddiad manwl ymhlith darparwyr penodol lle tybir bod y risgiau ar eu huchaf. Mae gan y Pwyllgor hefyd adroddiad alinio sy'n canolbwyntio'n benodol ar duedd hirdymor apwyntiadau newydd a dilynol, a'r cymarebau ar eu cyfer. Clywsom fod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau mynd i'r afael ag anghysondebau mewn cymarebau ar gyfer apwyntiadau newydd a dilynol, drwy gynnwys canllawiau ar y cymarebau a ddisgwylir mewn CLGau.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth¹¹			
A4	Sicrhau bod yr holl Gytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn addas i'r diben, hy eu bod yn nodi sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.	Rhagfyr 2015	<p data-bbox="824 475 1003 804">Ar y gweill</p> <p data-bbox="1014 475 2056 804">Yn ein hadolygiad yn 2015, er bod CLGau yn weithredol ar gyfer yr holl glinigwyr ymweliadol, canfuom nad oedd y cytundebau hynny yn trafod prif agweddau'r trefniadau comisiynu â sefydliadau allanol.</p> <p data-bbox="1014 579 2056 804">Roedd y staff y buom yn siarad â hwy'n cydnabod ei bod yn debygol y ceir amrywio anesboniadwy yn y dulliau a fabwysiedir gan glinigwyr wrth bennu dyddiadau targed ar gyfer apwyntiadau dilynol, ac wrth ryddhau cleifion. Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ei drefniadau monitro ar gyfer ei CHau a'i CLGau ar gyfer 2015-16, cynhwysodd y Bwrdd lechyd gyfeiriadau at gymarebau presenoldeb cleifion allanol mewn apwyntiadau newydd/dilynol, ar sail Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol, ac apwyntiadau dilynol i'w rheoli o fewn terfynau amser cytunedig.</p>

¹¹ Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Cytundebau Lefel Gwasanaeth¹²			
A4 Sicrhau bod yr holl Gytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn addas i'r diben, hy eu bod yn nodi sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.	Rhagfyr 2015	Ar y gweill	<p>Nodwyd yn ein hadolygiad cynnydd fod CLGau wedi cael eu cryfhau, a bod cydymffurfiaeth darparwyr wedi gwella, yn dilyn yr adolygiad Sicrwydd Comisiynu. Mae CHau a CLGau bellach yn manylu ar y broses uwchgyfeirio, ar sail system sgorio risg sydd yn adlewyrchu fframwaith Perfformiad y Bwrdd lechyd ei hun¹³. Mae hyn yn gymhelliant i ddarparwyr wella'u perfformiad. Manylir y sancsiynau sydd ar gael yn y CHau, sy'n cynnwys lefel uwch o fonitro, uwchgyfeirio i'r Prif Weithredwr neu ddirwyon yn yr achosion mwyaf difrifol. Defnyddiwyd y rhain, er bod ansicrwydd ynghylch eu heffeithiolrwydd. Cafwyd gwrthwynebiad i rai o'r sancsiynau, ac fe geir agweddau sensitif yn gysylltiedig â'u gweithredu, yn sgil dibyniaeth y Bwrdd lechyd ar wasanaethau darparwyr a gomisiynir.</p> <p>Yn adolygiad Cleifion Allanol a Theatrau Llawdriniaeth y Bwrdd lechyd yn 2016, nodwyd bod angen sicrhau gwell cysondeb rhwng capasiti gwasanaethau a gomisiynir, a'r galw amdanynt. Yn dilyn y gwaith hwn, mae trefniadau CLGau wedi datblygu'n gliriach, ond ceir problemau o hyd yn gysylltiedig â diffyg canllawiau clinigol, ac o ran sicrhau adnoddau ychwanegol lle bo angen cynnal sesiynau clinigol yn ychwanegol at yr hyn a gynlluniwyd yn ffurfiol.</p>

¹² Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Cytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

¹³Mae hyn yn cynnwys Mynediad, Cyllid a Gweithgarwch, Ansawdd a Diogelwch, Profiad y Claf a Llywodraethu.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Cytundebau Lefel Gwasanaeth¹⁴			
A4	Sicrhau bod yr holl Gytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn addas i'r diben, hy eu bod yn nodi sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.	Rhagfyr 2015	<p>Ar y gweill</p> <p>O ran rheoli risg, mae'r tîm sicrwydd Comisiynu wedi ystyried cryfhau'r trefniadau yn gysylltiedig â hyn. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd gadw golwg ofalus ar risg, yn enwedig gan fod amryw o'i ddarparwyr ar hyn o bryd wedi'u huwchgyfeirio neu mewn mesurau arbennig. Mae'r holl gytundebau yn amlinellu proses uwchgyfeirio glir i fonitro ac uwchgyfeirio achosion o dorri amodau, yn dibynnu ar lefel y mesurau. Pan geir achos o dorri amod ar lefel tri neu bedwar, adroddir y rhain gerbron y tîm gweithredol. Adroddir achosion lefel pedwar ac uwch o dorri amod gerbron y pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, ac mewn rhai achosion, gall y Bwrdd lechyd orfodi dirwy.</p> <p>Mae Powys wedi gorfodi dirwyon mawr ar ddarparwyr y GIG, ond gwrthwynebir y rhain ar adegau. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymwybodol o'r agweddau sensitif yn gysylltiedig â sancsiynau, oherwydd os bydd darparydd o'r farn eu bod yn annheg, gallai gael ei demtio i dynnu ei wasanaethau yn ôl. Effaith y broses uwchgyfeirio yw sicrhau bod gwaith craffu yn seiliedig ar risg, drwy graffu mwy ar gyrff a chanddynt amgylchiadau mwy heriol, a chraffu llai ar ddarparwyr llai problematig. Mae lefelau uwchgyfeirio newydd ar waith ar gyfer 2017-18, ac mae'r holl lefelau hynny wedi'u nodi yn y CLGau. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi penodi Arweinydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Comisiynu er mwyn cryfhau'r trefniadau i gasglu gwybodaeth am risgiau gan ddarparwyr a gomisiynir.</p>

¹⁴Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Cytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth¹⁵			
A5 Sicrhau bod perfformiad yn erbyn Cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.	Mawrth 2016	Yn hwyr	<p>Yn yr adolygiad a gynhaliom yn 2015, canfuom nad oedd y Bwrdd na'i is-bwyllgorau'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad gwasanaethau a gomisiynir, o ran y sesiynau gwirioneddol a gynhaliwyd yn erbyn y nifer a gomisiynwyd. Cynhaliodd y Bwrdd lechyd adolygiad o'i drefniadau comisiynu, gan gydnabod bod angen gwella'r trefniadau. Dechreuodd y Bwrdd lechyd newid darpariaeth gwasanaeth, gwella gwybodaeth a systemau gwybodaeth, yn ogystal â chomisiynu sesiynau clinig ychwanegol drwy drefniant ad hoc.</p> <p>Ers ein hadolygiad yn 2015, ceir anawsterau o hyd wrth gaffael gwybodaeth oddi wrth ddarparwyr a gomisiynir am apwyntiadau dilynol. Er bod trefniadau monitro ac ymwybyddiaeth o risgiau allweddol, y naill a'r llall, yn gwella, ceir llawer mwy o ffocws ar dorri amodau 'atgyfeirio i driniaeth'. Heb wybod sefyllfa apwyntiadau dilynol, ni all y Bwrdd lechyd adrodd yn benodol a yw elfennau o'r cytundebau yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol wedi'u bodloni.</p>

¹⁵ Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Cytundebau Lefel Gwasanaeth¹⁶			
<p>A5 Sicrhau bod perfformiad yn erbyn Cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.</p>	Mawrth 2016	Yn hwyr	<p>Mae'r grŵp rheoli rhestrau aros yn adolygu adroddiadau ar berfformiad bob pythefnos, sy'n cynnwys nifer y sesiynau CLG a gynhelir fesul maes arbenigol yn erbyn y nifer gofynnol. Y mae hefyd yn adolygu adroddiadau Comisiynu bob pythefnos, sy'n cynnwys adran ar dorri amodau 'atgyfeirio i driniaeth' a sefyllfa apwyntiadau dilynol fesul darparydd. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn Argymhelliad 2, mae'r wybodaeth a dderbynnir wedi'i chyfyngu i ddata ar weithgarwch, yn hytrach na'r holl ddata yn gysylltiedig â rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol.</p> <p>Mae'r Grŵp Sicrwydd Comisiynu yn llunio adroddiad cryno bob mis yn seiliedig ar adroddiadau unigol pob darparydd, gan ddangos perfformiad yn erbyn pum maes: Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch, Mynediad, Gweithgarwch a Llywodraethu. Ceir crynodeb o berfformiad y CH yn yr adroddiad, gan ddangos unrhyw orwariant neu danwariant ac unrhyw anghydfod ariannol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r darparydd. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn manylu ar y disgwyliadau a nodwyd yn y CH yn erbyn y gwasanaethau a ddarparwyd mewn gwirionedd. Nid yw ychwaith yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Mae hyn yn fater o bwys gan fod y lefel uwchgyfeirio yn seiliedig ar y sgôr risg a geir o ganlyniad i hynny. Y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad sy'n derbyn yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar dargedau 'atgyfeirio i driniaeth', heb gyfeirio rhyw lawer at apwyntiadau dilynol.</p>

¹⁶ Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Cytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Atodiad 2

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion sy'n weddill yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol

Dangosyn 5: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol							
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.	Defnydd gwell o adnoddau drwy leihau nifer yr apwyntiadau dilynol amhriodol. Llai o deithiau diangen i gleifion. Defnydd effeithlon o amser clinigwyr.	Ydy	Do	Rhaglen Adolygu a Gwella Gwasanaethau Cleifion Allanol: Mae datblygiadau o ran dychwelyd cleifion i Bowys yn parhau i leihau nifer y cleifion sy'n mynd i glinigau y tu allan i'r sir. Mae'r gwaith hwn o ddychwelyd cleifion yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Gynllun Integredig Tymor Canolig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae'n rhoi pwyslais ar adolygu llwybrau fel y gall cleifion, er enghraifft, gael eu hasesu, eu trin a'u dilyn ym Mhowys pan fo hynny'n briodol, neu gael eu dychwelyd i Bowys ar gyfer asesiadau dilynol/monitro.		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol							
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.	Defnydd gwell o adnoddau drwy leihau nifer yr apwyntiadau dilynol amhriodol. Llai o deithiau diangen i gleifion. Defnydd effeithlon o amser clinigwyr.	Ydy	Do	<p>Rhaglen Adolygu a Gwella Gwasanaethau Cleifion Allanol:</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried cynyddu nifer y clinigau a arweinir gan Nyrs Arbenigol a'r clinigau Nyrs Arbenigol sy'n cyd-fynd â chlinigau'r meddygon ymgynghorol. Byddai hyn yn cynyddu capasiti ar gyfer apwyntiadau mewn Clinigau Cleifion Allanol, yn gwella effeithlonrwydd amser y clinigwr, ac felly yn lleihau amseroedd aros i gleifion.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o fodel y Gwasanaethau Cleifion Allanol ym Mhowys er mwyn nodi pa welliannau ac effeithlonrwydd a gaiff effaith gadarnhaol ar ofal a phrofiad cleifion. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Cynllun Integredig Tymor Canolig. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar lwybrau amgen a fydd yn lleihau cyn lleied â phosibl yr angen i fynd i glinigau drwy ddefnyddio technoleg: apwyntiadau dros y ffôn, telefeddygaeth, ac ati. Mae'r gwaith hwn yn gydnaws â'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Cleifion Allanol, y mae gan Bowys gynrychiolaeth ynddo.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Lleihau nifer y cleifion sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol							
A1	Gan weithio gyda meddygon ymgynghorol ymweliadol, sicrhau bod angen apwyntiad dilynol am resymau clinigol ar y cleifion sydd ar y rhestr, ac os oes angen yr apwyntiad, ystyried a fyddai'n briodol canlyn llwybr arall yn lle ymweliad â chlinig, fel apwyntiad dilynol dros y ffôn.	Defnydd gwell o adnoddau drwy leihau nifer yr apwyntiadau dilynol amhriodol. Llai o deithiau diangen i gleifion. Defnydd effeithlon o amser clinigwyr.	Ydy	Do	<p>DNA: Yn 2016-17 yng Nghymru, canran yr apwyntiadau nad aeth y claf allanol iddynt oedd 8.6 y cant, gostyngiad o 0.4 y cant o 9.0 yn 2015-16. Powys oedd â'r ganran isaf (6.7 y cant).(Ffynhonnell: http://gov.wales/docs/statistics/2017/171128-outpatient-activity-2016-17-en.pdf).</p> <p>Mae Powys wedi perfformio'n dda yn gyson o ran cyfraddau DNA yng Nghymru ac ni ellir anwybyddu'r drefn cadw apwyntiadau yn hyn o beth, sy'n canolbwyntio ar y claf. Gwahoddir cleifion i gysylltu â'r Gwasanaethau Cleifion i drefnu apwyntiad ar amser addas. Cynigir yr apwyntiadau na ellir eu defnyddio i gleifion eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Er mwyn datblygu'r llwyddiant hwn ymhellach a gwneud rhagor o welliannau ac effeithlonrwydd, mae adolygiad o sut y gweinyddir y model Gwasanaethau Cleifion Allanol wrthi'n cael ei gynnal.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol							
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.	Dealltwriaeth well o'r galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac o'r oedi a'r risgiau yn gysylltiedig â hynny. Mae gan Aelodau Annibynnol sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i holl drigolion Powys, waeth pa le y byddant yn derbyn gofal.		Do	Mae'r Cyfarfodydd Comisiynu Perfformiad Ansoddol ac Adolygu (CQPRMs) â darparwyr yn cwmpasu Newid a Llywodraethu Strategol; Mynediad; Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Cleifion; Cyllid a Gweithgarwch. Mae'r agenda'n cynnwys y CHau a'r CLGau. Mae'r cadeirydd yn ddibynnol ar lefel yr uwchgyfeirio o dan Fframwaith Sicrwydd Comisiynu Bwrdd lechyd Addysgu Powys. Mae cofnodion y cyfarfodydd gweithredol ar CLGau wedi eu cynnwys yn yr agenda ynghyd â materion cysylltiedig ag eithriadau. Trafodir materion niwed/risg yn y rhan yn yr agenda sy'n cynnwys ansawdd a diogelwch. Nodir isod y cam sy'n ofynnol i wella gwybodaeth am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol sydd wedi eu gohirio:		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol							
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrydd drwy drefniadau monitro a chraffu.	Dealltwriaeth well o'r galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac o'r oedi a'r risgiau yn gysylltiedig â hynny. Mae gan Aelodau Annibynnol sicrydd bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i holl drigolion Powys, waeth pa le y byddant yn derbyn gofal.		Do	Darparwr Powys: Cyfarfodydd misol ar Restrau Aros dan gadeiryddiaeth Swyddog Gweithredol sy'n adrodd ar gydymffurfiaeth amseroedd o atgyfeiriad i driniaeth ac sy'n craffu ar ddata apwyntiadau dilynol, gyda champau clir i leihau amseroedd aros am apwyntiadau dilynol. Ystyrir llwybrau amgen yn rhan o Raglen Foderneiddio i Gleifion Allanol y Bwrdd Iechyd, fel y'i nodwyd yn A1 uchod. Mae cyfarfodydd CLG â phartneriaid yn rheolaidd drwy'r CQPRM yn galluogi'r Rheolwyr Gweithredol i wybod y diweddaraf am sefyllfa Amseroedd o Atgyferio i Driniaeth ac apwyntiadau dilynol. Y System Rheoli Gwybodaeth bresennol yw MiP (Myrddin in Powys). Cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr o broblem methiant yn y system yn ddiweddar. Mae'r systemau presennol wrthi'n cael eu diweddarau a bydd WCCIS yn cymryd eu lle.		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol							
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r isbwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.	Dealltwriaeth well o'r galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac o'r oedi a'r risgiau yn gysylltiedig â hynny. Mae gan Aelodau Annibynnol sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i holl drigolion Powys, waeth pa le y byddant yn derbyn gofal.		Do	Camau Gweithredu <ul style="list-style-type: none"> Parhau i sicrhau bod Cyfarfodydd Comisiynu Perfformiad Ansoddol ac Adolygu (CQPRMs) rheolaidd yn cwmpasu materion CHau a'r CLGau, a bod lefel gyfeirio briodol drwy'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd eithriadau mewn cysylltiad â'r metrig isod (Gweler hefyd A4 ac A5) 	Mawrth 2018	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Datblygu Comisiynu

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Adrodd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol							
A2	Ar gyfer holl gleifion Powys, waeth lle byddant yn derbyn triniaeth, sicrhau y ceir digon o wybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol sydd wedi'u hoedi, gan gynnwys risgiau clinigol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau perthnasol fel bo modd i'r Bwrdd gael sicrwydd drwy drefniadau monitro a chraffu.	Dealltwriaeth well o'r galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac o'r oedi a'r risgiau yn gysylltiedig â hynny. Mae gan Aelodau Annibynnol sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i holl drigolion Powys, waeth pa le y byddant yn derbyn gofal.		Do	Camau Gweithredu <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod metrig Apwyntiadau Dilynol sy'n defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli ar weithgarwch yn cael ei gynnwys yn y CQPRM a'r Cyfarfod Mewnol ar Sicrwydd Comisiynu. Gofyn i ddarparwyr am wybodaeth sy'n berthnasol i berygl o niwed oherwydd oedi mewn apwyntiadau dilynol Gweithio gyda Byrddau lechyd eraill i sicrhau bod Rhestrau Aros Cleifion Allanol sydd ag Oedi ar gyfer Cleifion Powys ar gael ar sail y Set Ddata Ofynnol a nodwyd yn yr Hysbysiad ar gyfer Newid yn Safon Ddata 2015 02/04/05. Sicrhau yr adroddir ar berfformiad CLGau a CHau i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad (is-bwyllgor y Bwrdd) 	Mawrth 2018 Mawrth 2018 Medi 2018 Yn chwarterol	Pennaeth Perfformiad (Comisiynu) Arweinydd ar Ansawdd a Diogelwch (Comisiynu) Pennaeth Perfformiad (Comisiynu) Pennaeth Perfformiad (Comisiynu)

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth¹⁷							
	Sicrhau bod yr holl Gytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn addas i'r diben, hy eu bod yn nodi sut y caiff risgiau eu rheoli, cost sesiynau ychwanegol a chymhellion a sancsiynau priodol.	Mecanwaith cadarn i reoli gwasanaethau a ddarperir gan eraill.		Do	<p>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y model CHau a CLGau ar gyfer Cymru yn 2007 a 2008. Ers 2015, mae Pwyllgor Gweithredol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol. Mae Pwyllgor Gweithredol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd wedi cymeradwyo proses amrywio ar gyfer unrhyw newidiadau o fewn y flwyddyn. Nodir yn y ddogfennaeth ym mha amgylchiadau y rhoddir cosb.</p> <p>Cam Gweithredu</p> <p>Sicrhau cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol i gryfhau geiriad y CHau a'r CLGau drwy gynnwys gweithgarwch apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn ogystal â gwybodaeth am restrau aros apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.</p> <p>Sicrhau bod Cynlluniau Cyllid a Gweithgarwch y CHau a'r CLGau yn</p>	<p>Mai 2018</p> <p>Mai 2018</p>	<p>Pennaeth Perfformiad (Comisiynu)</p> <p>Partneriaid Busnes Cyllid</p>

A4

¹⁷ Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
					darparu digon o wybodaeth am gostau'r sesiynau ychwanegol, y cymhelliannau a'r cosbau		

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Responsible officer
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth¹⁸							
A5	Sicrhau bod perfformiad yn erbyn Cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.	Mae gan aelodau annibynnol sicrwydd bod gwasanaethau a gomisiynir yn cynnig gwerth am arian, a bod trefniadau comisiynu'n gweithio'n effeithiol.	Ydy	Do	Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys Fframwaith Perfformiad Integredig ar waith. Mae ganddo hefyd Fframwaith Sicrwydd Comisiynu; mae'n cynnal CQPRM â'i 15 o ddarparwyr GIG yn rheolaidd; mae'n cynnal Cyfarfod Mewnol ar Sicrwydd Comisiynu yn fisol sy'n cynnwys pob darparwr; mae'n uwchgyfeirio'r darparwyr sydd â'r risg uchaf i Gyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar Ddarpariaeth a Pherfformiad y Gwasanaethau a Gomisiynir; ac mae'n adrodd ar y darparwyr sydd â'r lefel uchaf yn y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Fodd bynnag, er bod y prosesau hyn wedi eu sefydlu i gynnwys ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion; mynediad; cyllid a gweithgarwch; a llywodraethu, mae angen rhagor o bwyslais ar Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol, gan gynnwys oedi.		

¹⁸ Mae A4 ac A5 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu Cytundebau Hirdymor ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i'r sir yn ogystal â Chytundebau Lefel Gwasanaeth, sy'n cynnwys meddygon ymgynghorol ymweliadol.

Ref				Accepted (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Comisiynu ac Adrodd ynghylch Cytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth							
A5	Sicrhau bod perfformiad yn erbyn Cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd a'i is-bwyllgorau priodol, gan gyfleu'n glir y perfformiad yn erbyn y gwasanaethau a gomisiynwyd a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd.	Mae gan aelodau annibynnol sicrwydd bod gwasanaethau a gomisiynir yn cynnig gwerth am arian, a bod trefniadau comisiynu'n gweithio'n effeithiol.	Ydy	Do	<p>Camau Gweithredu:</p> <p>Sicrhau bod Fframwaith Perfformiad Integredig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (a roddwyd ar agenda'r Bwrdd) yn cynnwys metrig sy'n adrodd am dueddiadau ac eithriadau ar gyfer Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol gan ddefnyddio'r wybodaeth gyfredol ar weithgarwch (ar gyfer pob darparwr).</p> <p>Sicrhau bod adroddiad safonol ar berfformiad yn erbyn cynllun cyllid a gweithgarwch wedi'i gynnwys yn y cyfarfodydd CQPRM.</p> <p>Sicrhau bod adroddiadau misol y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu yn cynnwys metrig ar gyfer gweithgarwch o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.</p> <p>Ar ôl rhoi metrig ar gyfer oedi mewn Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol ar waith (gweler A2 uchod) gwneud hyn yn rhan o'r prosesau IPR; CQPRM; a Fframwaith Sicrwydd Comisiynu.</p>	<p>Mawrth 2018</p> <p>Mawrth 2018</p> <p>Mawrth 2018</p> <p>Mawrth 2018</p>	<p>Pennaeth Perfformiad (Comisiynu)</p> <p>Partneriaid Busnes Cyllid</p> <p>Pennaeth Perfformiad (Comisiynu)</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Datblygu Comisiynu</p>

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun : 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales